Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
Llywodraeth yr Alban
Llywodraeth Cymru

Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion

Rheoliadau Semen Buchol (Lloegr) 2007 (fel y'u diwygiwyd)
Rheoliadau Semen Buchol (Yr Alban) 2007
Rheoliadau Semen Buchol (Cymru) 2008

# Nodiadau esboniadol ar gyfer cais am gymeradwyaeth i ddefnyddio anifail buchol wrth gasglu semen (AI01)

**Darperir y nodiadau canlynol i'ch helpu i gwblhau ffurflen AI 1.**

1. **Pwy all wneud cais?**
Gellir gwneud cais i gymeradwyo anifail buchol gan y perchennog neu'r asiant sy'n gweithredu ar ei ran/rhan. Mae'n rhaid defnyddio ffurflen gais ar wahân ar gyfer pob anifail.

2. **Pa mor hir y mae'n ei gymryd i gael cymeradwyaeth?**
Mae angen o leiaf chwe wythnos fel arfer i gwblhau profion milfeddygol a rhoi cymeradwyaeth. Cynhelir archwiliad clinigol a phrawf samplu gan filfeddyg ar bob anifail a gyflwynir am gymeradwyaeth.

3. **Math o gymeradwyaeth**
Gellir cyflwyno anifeiliaid buchol am naill ai:

(a) **Cymeradwyaeth safle didrwydded** Dim ond am dri mis y mae cymeradwyaeth safle didrwydded yn ddilys. Rhaid cynnal cyfres o brofion ar yr anifail mewn safle didrwydded. Rhaid i'r anifail gael ei drwyddedu o fewn 28 diwrnod i'r prawf samplu. Mae semen a gesglir o anifail mewn safle didrwydded yn gymwys ar gyfer masnach ym Mhrydain Fawr a gall fod yn gymwys i gael ei allforio i rai gwledydd y tu allan i'r UE.

(b) **Cymeradwyaeth canolfan ddomestig** Er mwyn casglu mewn canolfan ddomestig cynhelir cyfres o brofion ar yr anifail mewn safle didrwydded cyn rhoi awdurdod i'w symud i ganolfan ddomestig. Rhaid i'r anifail gael ei drwyddedu o fewn 28 diwrnod i'r prawf samplu. Mae semen a gesglir o anifail mewn canolfan ddomestig yn gymwys ar gyfer masnach ym Mhrydain Fawr a gall fod yn gymwys i gael ei allforio i rai gwledydd y tu allan i'r UE.

(c) **Cymeradwyaeth canolfan CE** Cynhelir cyfres gyntaf o brofion ar yr anifail mewn safle didrwydded cyn ei symud i ganolfan gwarantîn. Cynhelir yr ail gyfres o brofion mewn canolfan gwarantîn cyn rhoi awdurdod i'w symud i'r ganolfan gasglu. Rhaid i'r anifail gael ei symud i'r ganolfan gwarantîn o fewn 28 diwrnod i'r dyddiad y cynhaliwyd y gyfres gyntaf o brofion. Mae semen a gesglir mewn canolfan CE yn gymwys ar gyfer masnach o fewn y gymuned, masnach ddomestig a gall fod yn gymwys i gael ei allforio i wledydd y tu allan i'r UE.

4. **Pwy all gynnal y profion samplu?**
Perchennog yr anifail/asiant fydd yn dewis pa filfeddyg fydd yn cynnal y profion samplu ar gyfer y gofynion profion swyddogol fel y'u nodir yn Rheoliadau Semen Buchol (Lloegr) 2007. Yr opsiynau yw:

(a) Milfeddyg y Ganolfan (MG)

(b) Arolygwr Milfeddygol Lleol (AMLl)

(c) Swyddog Milfeddygol (SM) Mae'r opsiynau uchod o ran pwy all gynnal profion

samplu yn gymwys i bob math o gymeradwyaeth a amlinellir yn 3 (a), (b) ac (c)

5. **Beth yw'r gost?**
Codir tâl gweinyddol ar y perchennog/asiant am bob opsiwn ym mhwynt 4 uchod, fel y cyhoeddir yn www.defra.gov.uk/animalhealth. Yn ogystal â'r tâl gweinyddol, os dewisir opsiynau
(a) neu (b), byddai angen setlo unrhyw gostau sy'n deillio o wasanaethau a ddarperir rhwng y perchennog/asiant a'r AMLl/MG. Os dewisir opsiwn (c), codir tâl am amser a chostau teithio'r swyddog milfeddygol fel y cyhoeddir yn www.defra.gov.uk/animalhealth . Unwaith y bydd yr anifail wedi'i brofi, ac y byddwn wedi derbyn y ddogfennaeth angenrheidiol i bennu a allwn roi cymeradwyaeth, byddwn yn cyfrifo'r costau priodol ar sail yr opsiwn a ddewiswyd. Yna byddwn yn gofyn i'n Hadran Cyfrifon i anfon anfoneb, y dylid ei thalu o fewn 28 diwrnod. Os am unrhyw reswm na chaiff yr anifail ei gymeradwyo, codir tâl am unrhyw wasanaethau a ddarparwyd a bydd y perchennog/asiant yn atebol i'w dalu.

6. **Ble i anfon eich cais**
Ar ôl cwblhau ffurflen AI 1, ynghyd ag AI 1A, dylid eu hanfon i: Animal and Plant Health Agency , Eden Bridge House, Lowther Street, Carlisle, CA3 8DX

Mae'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion yn un o Asiantaethau Gweithredol Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig sy'n gweithio i ddiogelu iechyd anifeiliaid a phlanhigion er budd pobl, yr amgylchedd a'r economi.